

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD /MEETING 3/3/2014**

PRESENNOL: Mrs Sharon Jones (Cadeirydd), Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs H Williams, Ms M Williams, Mr G Williams, Mr B Veevers a'r Cynghorydd R G Parry.

PRESENT: Mrs Sharon Jones (Chairman), Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs H Williams, Ms M Williams, Mr G Williams, Mr B Veevers and Councillor R G Parry.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

MINUTES: The minutes of the previous meeting was accepted as true minutes.

MATERION YN CODI:

1. Gweithgareddau "Cymru'n Cofio". Arweinydd Hogia Bodwrog wedi cadarnhau eu bod yn awyddus i gymryd rhan yn y gwasanaeth ar y 4.8.2014. Penderfynwyd gofyn i Gapel Moriah (A) a fyddai modd defnyddio'r capel ar y 4.8.2014. Mrs Catherine Lloyd i ddod a'r mater gerbron y capel.

2. Prosiect "Tidy Towns". Y Clerc wedi derbyn cwyn oddi wrth Mrs Madge Griffiths ynglŷn â phridd wedi'i osod ar wal derfyn yn y Cae Chwarae Plant a'r wal wedi dymchwel yn dilyn gwaith dan y prosiect uchod. Yn dilyn ymweliad Lois Roberts â'r safle yng ngwmni Mrs Griffiths, derbyniwyd llythyr oddi wrth Lois Roberts yn cadarnhau nad "Tidy Towns" oedd yn gyfrifol am adael y pridd ger y wal - roedd y contractwyr wedi symud pob gwastraff, pridd ayb o'r safle - yn edrych yn debyg bod y pridd wedi ei osod ers peth amser. Cadarnhaodd Ms Roberts hefyd fod y gwaith ar y cae chwarae yn dod ymlaen yn dda iawn.

3. Cloc y Pentref. Llythyr cais am gyfraniad wedi'u hanfon at sawl cwmni yn yr ardal ac at sawl ymddiriedolaeth. Derbyniwyd cadarnhad o dderbyn ein cais oddi wrth Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel - dylid disgwyl ymateb ymhen 3-4 wythnos. Derbyniwyd amcangyfrif o £5336.00 +TAW am blinth newydd oddi wrth Mona F & T. Penderfynwyd gofyn

MATTERS ARISING:

2. "Wales remembers" activities. Hogia Bodwrog's conductor had confirmed that the choir is happy to take part in the service on the 4.8.2014. It was decided to ask Moriah Chapel if it was possible to have use of the chapel on the 4.8.2014. Mrs Catherine Lloyd to bring the matter before the chapel.

2. "Tidy Towns" Project. The Clerk had received a complaint from Mrs Madge Griffiths regarding soil that had been placed on a boundary wall in the Children's Playing Field, following work done under the above project, and the wall had toppled. Following a visit to the site by Lois Roberts in the company of Mrs Griffiths, a letter was received from Lois Roberts confirming that "Tidy Towns" had removed all debris, soil etc from the site and that they were not responsible for leaving the soil against the wall. It seems that the soil has been left some time ago. Ms Roberts also confirmed that the work on the playing field was progressing well.

3. Village Clock. Letter requesting donations had been sent to various businesses in the area and to various trusts. Confirmation of receipt of our application was received from the War Memorials Trust - should receive a response within 3-4 weeks. An estimate of £5336 +VAT for a new plinth was received from Mona F & T. It was

am amcangyfrif gan Dyfed Pritchard. Dywedodd Mrs Sharon Jones fod y cloc wedi ei' restru gan CADW fel Twr Cofeb Rhyfel ar yr A5 Ffordd Caergybi, Gwalchmai, dan Rif Cofrestru Unigol 20515, ac yn adeilad Rhestredig Dosbarth 2 ers 23/9/1998.

4. Ffrwydro yn Chwarel Cae'r Glaw..
Dim ymateb i'n llythyr oddi wrth y Cyngor Sir na Chyngor Sir Y Fflint. Gofynnwyd i'r Cynghorydd R G Parry ddod a hyn i sylw'r Cyngor Sir.

GOHEBIAETH:

1. Mr Robin Jones. Llythyr oddi wrth Mr Jones yn cynghori nad oedd y sbwriel o gwmpas Lôn Pen Bonc at ac Tanygraig heb ei glirio. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd R G Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir. Mr Jones hefyd yn atgoffa'r Cyngor o'i ddymuniad i roi gorau i'w swydd fel cynrychiolydd ar Elusen William Bold. Y mater hwn i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

2. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Rhybudd derbyn cais cynllunio - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd newydd gyda holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir ger Hen Orsaf yr Heddlu, Gwalchmai.

(b) Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Glercod Cyngor Tref a Chymuned. Dyddiad ar gyfer yr hyfforddiant heb ei bennu eto.

(c) Cyfarfod Cyswllt gyda Chynghorai Tref a Chymuned 23/1/2014. Copi o'r cofnodion er gwybodaeth.

(d) Grant meysydd chwarae. Yr wybodaeth wedi ei throsglwyddo i Mr B Veevers i sylw'r Pwyllgor Maes Chwarae Plant.

(e) Cyfarfodydd CoRWM. Gwybodaeth am gyfarfodydd cyhoeddus i'w cynnal ym mis Medi.

(f) Ymgynghori Cyhoeddus Adeilad

decided to request an estimate from Dyfed Pritchard. Sharon Jones stated that the clock had been registered by CADW as a War Memorial Tower on 1% Holyhead Road, Gwalchmai under Unique Listing Numbers 20515, and a Grade 2 Listed building since 23/9/1998.

Blasting at Cae'r Glaw Quarry.

No response to our letter from the County Council or Flintshire County Council. Councillor R G Parry was requested to bring the matter to the attention of the County Council.

CORRESPONDENCE:

1. Mr Robin Jones. Letter from Mr Jones advising that the rubbish around Lon Pen Bonc and down to Tanygraig had not been cleared. It was decided to request Councillor R G Parry to bring this to the attention of the County Council. Mr Jones also reminded the Council of his wish to leave his office as representative on the William Bold Charity. This matter to be discussed further at the next meeting.

2. Isle of Anglesey County Council.

(a) Notice of receipt of planning application – Outline application for the erection of a dwelling with all matters reserved on land adjacent to The Old Police Station, Gwalchmai.

(b) Code of Conduct Training for Town and Community Council Clerks. The date for the training is yet to be decided.

(c) Town and Community Council Engagement meeting 23/1/2014. Copy of minutes for information.

(d) Playground Grant. The information passed on to Mr B Veevers to bring to the attention of the Children's Playing Field Committee.

(e) CoRWM Meeting Schedule. Information regarding public meetings to be held in September.

(f) Public Consultation New Nuclear

Niwclear Newydd yn Wylfa:
Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol. Er gwybodaeth.

(g) Ymgyrch Blodau'r Dyfodol". Y Cyngor Sir wedi penderfynu anrhydeddu a choffau canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf drwy wasgaru hadau pabi ayb. Er gwybodaeth.

3. Un Llais Cymru

(a) Aelodaeth Un Llais Cymru
Gwahoddiad i adnewyddu'n aelodaeth – cost £115. Penderfynwyd adnewyddu ein haelodaeth. Y Clerc i lenwi'r ffurflen a thalu'r ffi.

(b) Amrywiol ddogfennau er gwybodaeth yn unig.

4. Llywodraeth Cymru:

(a) Dogfen Ymgynghori – Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 – Gweithredu. Er gwybodaeth.

(b) Bwletin Cartrefi i Gymru. Er gwybodaeth.

5. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Adroddiad Blynyddol – er gwybodaeth.

6. Cais am gyfraniad oddi wrth NSPCC a Children's Cancer Support Group. Penderfynu peidio cyfrannu.

ARIANNOL:

(a) Anfoneb £45.00 oddi wrth Mr H G Hughes am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Chwefror.

Taliadau dyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

(b) Cyflog, Costau Sefydlog a Chostau'r Clerc £878.20.

(c) Cost llogi Neuadd yr Henoed i gynnal 11 cyfarfod yn 2013/14 £110.00.

(d) Tâl gofalwr y cloc 2013/14 £300 00.

Penderfynwyd fod y Clerc i dalu'r holl daliadau uchod.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y

Build at Wylfa: Supplementary Planning Guidance. For information.

(g) "Flowering Future Campaign". County Council have decided to include honouring and commemorating the centenary of the commencement of the First World by scattering poppy seeds etc. For information.

3. One Voice Wales

(a) Membership of One Voice Wales. Invitation to renew our membership – cost £115. It was decided to renew our membership. The Clerk to complete the form and pay the fee.

(b) Various documents for information only.

4. Welsh Government:

(a) Consultation Document- Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 – Implementation. For information.

(b) Homes for Wales Bulletin. For information.

5. Independent Remuneration Panel for Wales. Annual Report – for information.

6. Request for donation from NSPCC and Children's Cancer Support Group. Decided not to donate.

FINANCIAL:

(a) Invoice £45.00 from Mr H G Hughes for interpreting at the February meeting.

Payments due at the end of the financial year:

(b) Clerk's Salary, Fixed Costs and Costs £878.20.

(c) Cost of hiring Pensioners Hall for 11 meetings in 2013/14 £110.00

(d) Payment to clock caretaker 2013/14 £300.00.

It was decided that the Clerk pay all the above payments.

NEXT MEETING: The next meeting

cyfarfod nesaf nos Lun 7 Ebrill 2014.

will be held on Monday 7 April 2014.